Achyddiaeth

YCHWANEGU CYD-DESTUN AT EICH HANES TEULU CYMREIG

Llaeth amrwd yn cael ei arllwys a'i bwyso cyn ei oeri, Hufenfa Llandyrnog, cyn 1950. DI2010_0897 NPRN 91745

CBHC RCAHMW
Comisiwn Brenhinol
Henebion Cymru
Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Synagog Casnewydd, ffenestr goffa ar ochr ogleddol y fynedfa. DS2007_205_004 NPRN 13197

Hanes eich teulu

Gall yr adnoddau sydd i'w cael yng Nghofnod Henebion Cenedlaethol Cymru gyfoethogi eich ymchwil i hanes eich teulu.

Gallwch ddefnyddio ein harchif helaeth o ffotograffau, lluniadau, mapiau hanesyddol a disgrifiadau ysgrifenedig o filoedd o adeiladau a thirweddau ledled Cymru i gael gwybodaeth ddarluniadol am lawer agwedd ar hanes eich teulu:

- Y tai lle cafodd eich hynafiaid eu geni
- Y tŷ, pentref neu dref lle cawsant eu magu
- Yr ysgolion lle cawsant eu haddysg
- Yr addoldai y buont yn eu mynychu
- Ble y buont yn gweithio
- Sut y byddent yn mynd i'r gwaith
- Y wyrcws y gallai rhai fod wedi gorfod mynd iddo
- Ble y byddent yn mynd am adloniant
- Ble y cawsant eu claddu

Llun o'r staff a'r plant amddifad yng Nghastell Albro ym 1927. DI2008_0248 NPRN 3041

Casgliadau

- Mae ein casgliadau o fapiau hanesyddol yn olrhain datblygiad cymunedau ym mhob rhan o Gymru, gan ddangos yr adeiladau a'r wlad a luniodd y genedl.
- Mae Manylion Gwerthiannau Ystadau yn rhoi gwybodaeth fanwl am y tai a'r diwydiannau a oedd yn rhan o ystadau mawr yng Nghymru ac yn datgelu sut y cafodd yr ystadau eu rhannu ar droad yr ugeinfed ganrif. Mae llawer o'r rhain yn cynnwys mapiau a manylion eraill megis y prisiau a dalwyd yn y gwerthiant.
- Mae awyrluniau'n dangos sut oedd pentrefi, trefi a chymunedau yn edrych ar adeg benodol yn eu hanes. Mae'r casgliadau'n dyddio o 1918 hyd heddiw ac maent hwy'n gofnod o Gymru fel gwlad ddiwydiannol yn frith o ffatrïoedd budr â mwg yn codi o'u simneiau, ac fel gwlad o fynyddoedd a dyffrynnoedd gyda ffermydd hynafol wedi'u gwasgaru ar hyd y dirwedd.
- Mae albymau o hen ffotograffau yn cynnig cipolwg difyr dros ben ar fywyd ym mhlastai, ffermdai a bythynnod hanesyddol Cymru o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at y cyfnod modern.



Cofeb Anne Griffiths, plac mur goliwiedig, Eglwys Sant Patrisio. DS2012_386_025 NPRN 163422

Rydym yn cadw

- Gwybodaeth am bob capel yng Nghymru a ffotograffau o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ffotograffau o arysgrifau ar gofebion, gan gynnwys: cerrig beddau, cofgolofnau rhyfel, rhestri anrhydedd a phlaciau coffa.
- Ffenestri coffa o wydr lliw sydd yn aml yn cynnwys manylion aelodau unigol o deulu a'u llinach.
- Ffotograffau, adroddiadau a lluniadau'n ymwneud ag eglwysi plwyf ac adeiladau lleol eraill megis ysgolion, sinemâu, theatrau, sefydliadau gweithwyr a neuaddau tref.
- Deunydd ar reilffyrdd, llongau, camlesi, ffyrdd a meysydd awyr Cymru.

Yn ein llyfrgell boradwy mae gennym gyhoeddiadau ar hanes Cymru a'i chrefftau, anheddau ac addoldai. Mae yna lyfrau ar sut i ddechrau ymchwilio i hanes eich teulu a'r ffynonellau gorau i'w defnyddio.

Ystafell chwilio Henebion Cenedlaethol Cymru. D12009_035

Gwasanaethau

Defnyddiwch *Coflein*, ein cronfa ddata ar-lein, i chwilio am safleoedd sydd o ddiddordeb i chi, bwrw golwg dros gasgliadau sydd wedi'u catalogio, a gweld delweddau o bob rhan o Gymru – www.coflein.gov.uk

Dewch i'n llyfrgell ac ystafell chwilio i weld llyfrau, cylchgronau a deunydd archifol gwreiddiol o CHCC. Rydym ar agor: Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Iau a Dydd Gwener 09:30 – 16:00, Dydd Mercher 10:30 – 16:30. Fe'ch cynghorir i wneud apwyntiad.

Llyfrgell a Gwasanaeth Ymholiadau CHCC
CBHC
Ffordd Penglais
Aberystwyth
Ceredigion, SY23 3BU

Ffôn: +44 (0)1970 621200
E-bost: chc.cymru@cbhc.gov.uk
Gwefan: www.cbhc.gov.uk

Ein cofnod o safleoedd a chatalog ar-lein:
Coflein: www.coflein.gov.uk